# Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol L3

Mae'r Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol yn gwrs delfrydol i wella eich gwybodaeth ddamcaniaethol am lawer o elfennau ymarferol a themâu chwaraeon, gan gynnwys cadw'n heini ac iach, Gwyddor Chwaraeon a datblygu fel hyfforddwr.
Bydd y cymhwyster yn caniatáu i'r dysgwr ddewis llwybrau penodol :

- Hyfforddiant Chwaraeon
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

Byddwch yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol fel Pêl-foli, Pêl-droed, Pêl-rwyd a Rygbi

Mae'r unedau'n cynnwys: Anatomeg a ffisioleg, hyfforddiant ffitrwydd a rhaglennu, profi ffitrwydd, maeth chwaraeon a hyfforddi chwaraeon. Mae cymwysterau ychwanegol yn cynnwys Dyfarniad Arweinwyr Chwaraeon a Gwobrau CRhC (lle bo'n berthnasol)

Byddwch yn datblygu eich sgiliau a'ch rhinweddau mewn hyfforddi, arwain a threfnu digwyddiadau trwy weithio ochr yn ochr â llawer o'n partneriaid, rhedeg gwyliau a gweithio gyda phobl ifanc sy'n frwd dros chwaraeon. Mae hwn wedi'i leoli yn yr adran Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus (SPS).

## Gofynion Mynediad

TGAU pwnc-benodol yn ôl y gofyn a/neu Gymhwyster Lefel 2 mewn Chwaraeon neu Wasanaethau Cyhoeddus. TGAU Mathemateg neu Saesneg neu'r ddau yn ddymunol.

## Rhagolygon Gyrfa

Llwybrau dilyniant i gyrsiau lefel uwch neu ennill sgiliau ar gyfer cyflogaeth.

## Modiwlau'r cwrs

Gall myfyrwyr symud ymlaen i gwrs Gradd Addysg Uwch neu Radd Sylfaen mewn Hyfforddi Chwaraeon yng Ngrŵp NPTC.

Bydd y cymhwyster hwn hefyd yn caniatáu mynediad i ddiwydiant, y gwasanaethau cyhoeddus a meysydd eraill sy'n ymwneud â chwaraeon.

## Asesiad

Gall myfyrwyr symud ymlaen i gwrs Gradd Addysg Uwch neu Radd Sylfaen mewn Hyfforddi Chwaraeon yng Ngrŵp NPTC.

Bydd y cymhwyster hwn hefyd yn caniatáu mynediad i ddiwydiant, y gwasanaethau cyhoeddus a meysydd eraill sy'n ymwneud â chwaraeon.

## Costau Ychwanegol

Bydd costau ychwanegol cysylltiedig â chyrsiau.

### DULL ASTUDIO

FT

### LLEOLIAD

Coleg Bannau Brycheiniog - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

Academi Chwaraeon Llandarcy - 0330 818 8100

### HYD Y CWRS

1Y